Y Goeden Nadolig

Be wnei-di, goeden gadarn gre',
Mor bell o'r coed ar sgwâr y dre?
'I'r coed â'i fwyell fawr daeth gŵr,
A'm gosod yma i sefyll, siŵr.'

Ai gwell y pridd, hen goeden fawr,
Na llwydni'r palmant plaen ar lawr?
'Mae 'nhraed i'n oer iawn, yden', ond
Mae'n ddifyr sefyll yma'n stond.'

Be weli di, hen goeden dal?
'Mi welaf i fod mwy i wal
Na sment a brics, a mwy i dre
Na phalmant stryd a gorsaf drên.'

Wel, paid â malu, goeden ffôl!
'Na, wir i ti, o'r sgwâr yng nghôl
Y dre fach hon, mi glywaf i
Garolau llawen ger y lli.'

Be arall glywi di, hen bren,
Rhwng heol yr Hen Gol a'r Gen?
'Dwi'n clywed lleisiau heb eu hail
Holl blant y dre – a Ioan Guile.'

Ai gwell eu lleisiau, goeden hud,
Na'r adar mân yn gân i gyd?
'Llawn cystal lleisiau'r gân, os gwell,
Ag adar bach y goedwig bell.'

Am beth yr o'n-nhw, goeden werdd,
Eleni'n mynnu canu cerdd?
'Am gariad, er pob trais a sen,
Nad yw byth yn dod i ben.'

Ond byddi di, hen goeden hardd,
Cyn hir yn mynd, gan siomi'r bardd!
'Daw'r cariad hwn o farw'n fyw,
Fel fy nodwyddau, bythwyrdd yw.'

A fedrwn, goeden fawr y stryd,
Wneud rhywbeth i dy gadw'n glyd?
'Lapiwch o'm cwmpas olau'r sêr
Yn llaes fel siôl obeithiol bêr,

Ac yn y flwyddyn newydd sbon,
Pan gewch chi'n ôl y sgwâr fach hon,
Na pheidiwch chi â g'leuo'r dre,
Goleuwch eraill yn fy lle.'

Eurig Salisbury